Estyn

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Gweithgarwch dilynol

# Arweiniad ar gyfer lleoliadau heblaw ysgolion sy’n darparu gofal ac yn gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser, ac ar gyfer arolygwyr

Ionawr 2019



## Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Mae’r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer pob arolygiad ar y cyd gydag Estyn ac AGC a gynhelir o Ionawr 2019.

Mae’r arweiniad yn nodi’r camau y bydd timau arolygu yn eu cymryd i’w helpu i nodi pa lefel gweithgarwch dilynol sy’n fwyaf priodol.

Fodd bynnag, mae’r arweiniad hwn yn hyblyg gan fod angen iddo fod yn ymatebol i’r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy’n digwydd mewn lleoliadau wrth iddynt wella yn dilyn arolygiadau craidd. Mae Estyn ac AGC yn cadw’r hawl i addasu’r arweiniad i fodloni anghenion lleoliadau penodol.

## Arweiniad ar gyfer arolygwyr ar osod lleoliad mewn categori gweithgarwch dilynol

**Cefndir**

Yn ystod pob arolygiad ar y cyd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y lleoliad.

Bydd hyn yn seiliedig ar y barnau ac unrhyw ddiffyg cydymffurfio a nodir ar gyfer pob thema.

Fel arfer, mae angen gweithgarwch dilynol ar leoliad:

1. Os yw AGC wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio
2. Os yw AGC wedi hysbysu’r darparwr o ddiffyg cydymffurfio ond nid yw wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio
3. Os nodir bod yr arweinyddiaeth a’r rheolaeth yn ddigonol neu’n wael

Mae dau fath o weithgarwch dilynol:

**1 Adolygu Cynnydd**
**2 Gwelliant â ffocws**

Mae gweithgarwch dilynol yn cynnwys gweithgarwch naill ai gan arolygwyr Estyn a/neu arolygwyr AGC. Mae’r gweithgarwch yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn gymesur â gwelliannau sydd eu hangen.

Mae’r un prosesau sicrhau ansawdd yn berthnasol i waith dilynol ag ar gyfer arolygiadau ar y cyd. Yr unig farn yr adroddir arni yn ystod unrhyw ymweliad dilynol yw p’un a oes angen gweithgarwch dilynol ar leoliad o hyd, a chaiff ei hysbysu o hyn yn ystod yr ymweliad. Bydd y penderfyniad a wneir yn un dros dro ac yn destun cymedroli gan y ddwy arolygiaeth. Mae’n gyfrinachol i’r lleoliad hyd nes y cyhoeddir yr adroddiad.

## 1 Adolygu Cynnydd

**Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch ar leoliadau pan fydd y farn ar gyfer thema arolygu 6, sef arweinyddiaeth a rheolaeth, yn ddigonol.**

### Cam cyntaf

Efallai y barnwyd bod ychydig o themâu arolygu yn dda.  Fodd bynnag, bydd gan y lleoliad rai meysydd pwysig i’w gwella y mae’n rhaid iddo fynd i’r afael â nhw, a gallai AGC fod wedi hysbysu’r darparwr o ddiffyg cydymffurfio ond ni fydd wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.  Er enghraifft, efallai nad yw arweinwyr y lleoliad yn cynllunio ac yn gweithredu gwelliannau yn ddigon da.  Fodd bynnag, nid yw’r lleoliad yn achosi pryder i’r graddau fod angen ei osod yn y categori Gwelliant â Ffocws.

Os bernir bod angen adolygiad ar y lleoliad, bydd yr arolygydd arweiniol yn dweud wrth y person cofrestredig/unigolyn cyfrifol ac arweinydd y lleoliad ar ddiwedd yr arolygiad fod y tîm wedi llunio’r farn hon a llenwi’r adran berthnasol ar y FfF adrodd.

Ar ôl cymedroli a dilysu’r deilliannau arolygu cytûn, bydd y cydlynydd arolygu yn anfon llythyr o gadarnhad at y lleoliad, gan anfon copi ohono i’r awdurdod lleol, yn esbonio y bydd arolygwyr yn adolygu’r cynnydd a wnaed.

Bydd Estyn ac AGC yn adolygu cynnydd y lleoliad ar y cyd wrth fynd i’r afael â’r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad, ryw 12-18 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad. Bydd AGC yn mynd ar drywydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad nesaf sydd wedi’i drefnu os yw hyn yn dod cyn diwedd y cyfnod adolygu.

Yn y lle cyntaf, bydd y gweithgarwch adolygu cynnydd yn ystyried tystiolaeth ddogfennol; bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth o’r lleoliad o welliannau a wnaed ers yr arolygiad ar y cyd, ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion o’r awdurdod lleol.

Bydd gofyniad hefyd i’r person cofrestredig/unigolyn cyfrifol ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio ag unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt wedi’u datrys yn ystod yr arolygiad, lle nad oes hysbysiad wedi’i gyflwyno.

Os yw’r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos cynnydd clir yn erbyn yr argymhellion a’r diffyg cydymffurfio a nodwyd, ac effaith gadarnhaol ar ofal a deilliannau plant, ni fydd unrhyw weithgarwch dilynol pellach yn digwydd.  Bydd AGC yn adolygu p’un a yw’r lleoliad yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau yn ystod yr arolygiad nesaf sydd wedi’i drefnu.  Yn yr arolygiad nesaf ar y cyd, bydd y ddwy arolygiaeth yn ystyried p’un ai yw cynnydd yn erbyn yr argymhellion wedi’i gynnal a’i barhau.

## Ail gam

Os nad oes tystiolaeth amlwg o gynnydd yn erbyn yr argymhellion a/neu ni chyflawnwyd cydymffurfio, yna fel arfer, bydd arolygwyr yn cynnal ymweliad adolygu cynnydd â’r lleoliad.

Bydd ymweliad adolygu cynnydd fel arfer yn cynnwys un sesiwn yn y lleoliad ac yn dilyn un o’r gweithdrefnau hyn:

i) Bydd un arolygydd AGC yn ymweld i fynd ar drywydd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio (gan gynnwys diffyg cydymffurfio mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth)
ii) Bydd un arolygydd Estyn yn ymweld i fynd ar drywydd unrhyw faterion yn ymwneud â dysgu, addysgu ac asesu.
iii) Cynhelir ymweliad ar y cyd gan un arolygydd AGC ac un arolygydd Estyn lle ceir materion cyffredinol yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, byddai ymweliad ar y cyd yn cael ei gynnal lle nad yw lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau’n ymwneud â ffeiliau staff, ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu safon addysg ddigon da ar gyfer plant.

Rhoddir hysbysiad 10 niwrnod i leoliadau o ymweliad adolygu cynnydd dilynol.

**Os yw opsiynau i) neu ii) uchod yn digwydd**, bydd yr arolygwyr priodol yn adrodd eu canfyddiadau yn ôl i’r lleoliad ar ddiwedd yr ymweliad. Byddant yn rhannu’r rhain mewn sgwrs fer gyda’r arolygiaeth bartner i gadarnhau penderfyniad ar y cyd ynglŷn â chamau nesaf. Yr arolygiaeth sy’n arwain yn ystod yr ymweliad dilynol fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd.

Pan fydd penderfyniad wedi’i wneud nad oes angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach, bydd Estyn ac AGC yn cyhoeddi’r adroddiad adolygu cynnydd ar eu gwefannau yn esbonio’u penderfyniad.

Yn dilyn ymweliad, os oes angen lefel ddwysach o weithgarwch dilynol ar leoliad, bydd Estyn ac AGC yn cyhoeddi’r adroddiad o’r ymweliad ar eu gwefannau, er mwyn hysbysu rhanddeiliaid o ganlyniad yr ymweliad.

Os yw’r lleoliad wedi methu mynd i’r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio, bydd AGC yn ysgrifennu ar wahân at y Person Cofrestredig yn ei wahodd i gyfarfod darparwr a fydd yn rhoi cyfle iddo egluro pam y mae’n parhau i beidio â chydymffurfio. Bydd unrhyw gamau gorfodi pellach yn cael eu hystyried gan y Panel Sicrhau Gwelliant a Gorfodi Lleol.

Mewn **amgylchiadau eithriadol**, er enghraifft, lle bu newid arwyddocaol yn yr arweinyddiaeth ac mae unrhyw welliannau yn rhai diweddar iawn, byddai ymweliad dilynol yn cael ei gynnal cyn pen tri mis i ailasesu cynnydd yn erbyn diffyg cydymffurfio ac argymhellion.

## 2 Gwelliant â Ffocws

Fel rhan o bob arolygiad, dylai arolygwyr ystyried a oes angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad drwy ystyried:

- os yw'r lleoliad yn methu darparu safon dderbyniol o ofal ac addysg i blant
- os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain neu reoli'r lleoliad yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn y lleoliad.
  **Yn yr achos hwn, mae'r farn ar gyfer thema arolygu 6, sef arweinyddiaeth a rheolaeth, yn debygol o fod yn wael.**

Rhaid i arolygwyr ystyried a yw'r gallu gan y lleoliad i wella cyn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a oes angen gwelliant â ffocws arno.

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwelant, a gallu cadarnhau eu barnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os bydd y dystiolaeth yn dod i'r casgliad bod angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad, rhaid i arolygwyr wneud y penderfyniad hwnnw ar y cyd ar sail y barnau a luniwyd.

Dylai arolygwyr bwysleisio yn ystod y cyfarfod adborth bod yr holl farnau, gan gynnwys y penderfyniad i osod y lleoliad yn y categori gwelliant â ffocws, yn farnau dros dro ac yn destun sicrhau ansawdd.

### Ymweliadau adolygu â lleoliad yn y categori gwelliant â ffocws

Bydd gwelliant â ffocws yn dilyn un o'r gweithdrefnau hyn:

i) Lle bernir bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn 'wael' oherwydd materion diffyg cydymffurfio, bydd AGC yn cymryd cyfrifoldeb am weithgarwch dilynol ac yn dilyn ei pholisi sicrhau gwelliant a gorfodi. Bydd AGC yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio fel rhan o'r adroddiad arolygu ar y cyd ac yn rhoi graddfa amser fer i'r person cofrestredig/unigolyn cyfrifol ar gyfer darparu tystiolaeth o gydymffurfio. Gall fod angen i AGC gyflwyno'r hysbysiad cyn i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, gan ddibynnu ar yr effaith neu'r risg i'r plant. Lle ceir pryder digonol i ystyried atal neu ganslo cofrestriad y darparwr, ni fydd unrhyw weithredu pellach gan Estyn.

ii) Os bernir bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn "wael" oherwydd diffygion yn y dysgu, a'r addysgu ac asesu, bydd Estyn yn cymryd cyfrifoldeb am weithgarwch dilynol. Gall lleoliadau gael hyd at dri ymweliad, un bob tymor fel arfer, er mwyn mesur cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Fel arfer, bydd ymweliadau yn cynnwys un sesiwn yn y lleoliad.

iii) Os bernir bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn "wael" oherwydd diffygion ar draws y gwasanaeth, yna bydd y ddwy arolygiaeth yn cynnal ymweliad ar y cyd. Gall lleoliadau gael hyd at dri ymweliad, un bob tymor fel arfer, er mwyn mesur cynnydd yn erbyn yr argymhellion a diffyg cydymffurfio. Fel

arfer, bydd yr arolygiaeth a arweiniodd yr arolygiad craidd ar y cyd yn arwain ar gyfer yr ymweliadau adolygu. Bydd un arolygydd o bob arolygiaeth yn cymryd rhan yn yr ymweliadau hyn, a fydd fel arfer yn cynnwys un sesiwn yn y lleoliad.

Bydd angen i leoliadau gyflwyno tystiolaeth i AGC i ddangos sut maent yn cydymffurfio â rheoliadau lle nodwyd bod diffyg cydymffurfio yn yr arolygiad ar y cyd (pwynt i uchod).

Bydd yn ofynnol i leoliadau gyflwyno Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad drwy’r cydlynydd arolygu i ddangos sut maent yn bwriadu sicrhau gwelliannau yn erbyn yr argymhellion (pwyntiau ii a iii uchod).

Lle mae Estyn yn llwyr gyfrifol am weithgarwch dilynol, bydd un arolygydd Estyn yn monitro cynnydd yn ystod y ddau ymweliad cyntaf, a bydd dau o arolygwyr Estyn yn monitro cynnydd yn ystod y trydydd ymweliad. Estyn fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd yr adroddiad a bydd yn adrodd canfyddiadau yn ôl i AGC ar ddeilliannau’r ymweliadau hyn.

Lle mae AGC yn llwyr gyfrifol am weithgarwch dilynol, bydd AGC yn dilyn ei pholisi sicrhau gwelliant a gorfodi a bydd yn adrodd canfyddiadau yn ôl i Estyn ar y canlyniad. AGC fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd yr adroddiad.

Lle ceir cyfrifoldeb ar y cyd am weithgarwch dilynol, bydd un arolygydd o bob arolygiaeth yn cynnal yr ymweliadau adolygu cynnydd. Bydd y ddau arolygydd yn casglu tystiolaeth ar gyfer eu maes cyfrifoldeb, a bydd pob arolygydd yn ysgrifennu sylwebaeth i ddangos cynnydd yn erbyn yr argymhellion a’r diffyg cydymffurfio perthnasol. Yr arolygydd arweiniol fydd yn gyfrifol am yr adroddiad terfynol, a bydd yr un gweithdrefnau sicrhau ansawdd ag ar gyfer arolygiadau craidd ar y cyd yn berthnasol.

**Lle mae’r lleoliad wedi gwneud digon o gynnydd ac nid oes angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach**

i) Lle mae AGC yn llwyr gyfrifol am weithgarwch dilynol, bydd yn hysbysu’r lleoliad o ganlyniad y broses, yn unol â’i pholisi sicrhau gwelliant a gorfodi (pwynt i uchod). Lle mae Estyn yn llwyr gyfrifol am weithgarwch dilynol, bydd Estyn yn anfon llythyr ar y cyd yn hysbysu rhanddeiliaid nad oes angen unrhyw weithgarwch pellach. Lle ceir cyfrifoldeb ar y cyd am weithgarwch dilynol, yr arolygiaeth arweiniol fydd yn anfon y llythyr ar y cyd.

ii) Bydd yr adroddiad ar gyfer yr ymweliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefannau’r ddwy arolygiaeth, yn hysbysu rhanddeiliaid o’r canlyniad.

iii) Gall AGC ddod ag arolygiad nesaf y lleoliad ymlaen yn ei chylch arolygu.

**Pan fydd y lleoliad wedi gwneud cynnydd annigonol:**

i) Bydd AGC yn mynd â'r mater gerbron y Panel Sicrhau Gwelliant a Gorfodi a fydd yn penderfynu ar y llwybr gorfodi priodol

ii) Bydd Estyn yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol ac yn awgrymu eu bod yn tynnu cyllid yn ôl ar gyfer addysg gynradd yn y lleoliad.

iii) Bydd llythyr ar y cyd yn cael ei anfon gan yr arolygiaeth arweiniol at randdeiliaid yn eu hysbysu o'r penderfyniad.

iv) Bydd yr adroddiad ar gyfer yr ymweliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefannau'r ddwy arolygiaeth, yn hysbysu rhanddeiliaid o'r canlyniad.